



Tyfu Canolbarth Cymru Ebrill 2025

Dathlu 3 blynedd o gyllid Y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghanolbarth Cymru

Gwaddol | Ysbrydoliaeth | Beth nesaf?

Mae'r cylchlythyr mis Ebrill hwn yn taflu goleuni ar waddol y Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF) yn ein rhanbarth. Dros y tair blynedd diwethaf, mae Ceredigion a Phowys wedi cyflawni mwy na 160 o brosiectau ar draws trefi, cymoedd a chymunedau - grymuso pobl, cefnogi busnesau, a buddsoddi mewn balchder mewn lle.

Wrth i'r rhaglen bresennol ddod i ben, rydym yn dathlu straeon llwyddiant amlwg, yn archwilio'r effaith hyd yn hyn, ac yn rhoi cipolwg ar yr yn sydd nesaf mewn tirwedd ariannu sy'n newid. Rydym yn gwybod bod llawer yn gofyn 'A fydd mwy?' - ac er y bydd cyllid yn y dyfodol yn fwy cyfyngedig, bydd y partneriaethau a'r prosiectau sy'n cael eu hau yma yn parhau i dyfu.

Gadewch i ni ystyried, cael ein hysbrydoli, a pharatoi ar gyfer y bennod nesaf.

Yn helpu i dyfu cyfleoedd yn y canolbarth,

Tîm Tyfu Canolbarth Cymru

[Clawr: Pagliacci, cynhyrchiad beiddgar a theatrig gan gwmni opera o Ganolbarth Cymru, â wnaeth elwa o gyllid, darllenwch fwy yn y cylchlythyr]

Yn y rhifyn hwn

- Gwaddol y Gronfa Ffyniant Gyffredin
- Canfyddiadau'r gwerthuso: Beth wnaeth y Rhaglen Ffyniant Gyffredin ei gyflawni?
- Astudiaethau Achos
- Golwg ymlaen: tirwedd ariannu ôl-2025
- Newyddian eraill

Gwaddol y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Ym mis Ebrill 202, dyrannwyd £42.2 miliwn i Gyngorau Sir Ceredigion a Phowys ar gyfer buddsoddiad lleol drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Nod y gronfa hon yw lefelu cymunedau trwy fuddsoddi mewn Cymunedau a Lleoedd, Cefnogi Busnesau Lleol, Pobl a Sgiliau, a Lluosi.

Llwyddiannau Allweddol: Gwerthuso gan Wavehill

Yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni

Ariannwyd dros 160 o brosiectau ar draws Cymunedau a Lleoedd, Busnesau Lleol, a Phobl a Sgiliau, gan gynnwys:

Cymorth i dros 100 o fusnesau



Hyfforddiant i filoedd o drigolion lleol



Buddsoddi mewn mannau gwyrdd, marchnadoedd a chanolfannau gwledig



Gwell cynhwysiant digidol ar draws y rhanbarth



Ar draws y rhanbarth, mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi cefnogi prosiectau creadigol, entrepreneuriaidd a chymunedol.

Rydym wrth ein bodd i rannu llwyddiannau ein mentrau diweddar a werthuswyd yn annibynnol, gan arddangos yr effaith gadarnhaol ar draws twf busnes, ymgysylltu â'r gymuned, datblygu sgiliau, a chydweithio. Mae'r ymdrechion a amlygir isod yn dyst i waith caled ac ymrwymiad pawb sy'n cymryd rhan.

Twf a Chefnogaeth Busnes

Mae ein cynlluniau grant busnes wedi cael effaith ryfeddol, gan gefnogi 217 o fusnesau newydd a phresennol. Arweiniodd yr ymdrechion hyn at **503** o swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE0 a chyfrannodd at gynnydd trawiadol o **£5.8 miliwn** mewn trosiant, gydag effaith GYC ychwanegol net o **£1.9 miliwn**. Adroddodd mwy na **thri chwarter** o fusnesau

uchelgeisiau twf cynyddol, gyda llawer hyd yn oed yn llogi staff am y tro cyntaf, gan nodi carreg filltir sylweddol yn eu datblygiad.

Ymgysylltu â'r Gymuned a Seilwaith

Fe wnaethom ragori ar ein targedau ar gyfer digwyddiadau a gweithrediadau lleol, gan wella ymgysylltiad cymunedol yn fawr a meithrin ymdeimlad o undod. Yn ogystal, arweiniodd ein ffocws ar welliannau amgylcheddol at gyflawniadau sylweddol, megis creu llwybrau beicio, llwybrau troed newydd a gwell, a chynnydd nodedig mewn plannu coed, gan wella'r amgylchedd lleol ymhellach.

Datblygu Sgiliau

Mae'r rhaglen wedi cael effaith ddofn ar ddatblygu sgiliau, yn enwedig mewn meysydd fel sgiliau bwyd a chefnogaeth i unigolion sydd bellaf o'r farchnad lafur. Mae hyn wedi helpu llawer o unigolion i sicrhau cyflogaeth a gwella eu rhagolygon. Yn ogystal, roedd pwyslais cryf ar adeiladu sgiliau gwyrdd a digidol, gan gyd-fynd â blaenoriaethau datblygu rhanbarthol ehangach a sicrhau bod cyfranogwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.

Dull Cydweithredol

Mae cydweithio wedi bod wrth wraidd ein llwyddiant. Mae partneriaethau cryf rhwng cynghorau Ceredigion a Phowys wedi arwain at lywodraethu effeithiol a systemau rheoli didor. Mae ein prosiectau ymbarél wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth wneud cymorth yn fwy hygyrch i grwpiau cymunedol bach a busnesau, gan sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Hyblygrwydd ac Addasrwydd

Un o brif gryfderau'r rhaglen yw ei dyluniad eang a hyblyg, sydd wedi ein galluogi i ymateb yn gyflym i anghenion sy'n dod i'r amlwg a gofynion sy'n newid. Mae'r hyblygrwydd hwn, ynghyd ag ymreolaeth leol, wedi grymuso rhanddeiliaid i gymryd perchnogaeth o'u blaenoriaethau, gan feithrin y gallu i wneud penderfyniadau lleol ystyrlon a sicrhau bod y mentrau wir yn adlewyrchu anghenion cymunedol.


Mae'r llwyddiannau hyn yn dangos pŵer cydweithredu, addasrwydd, a chefnogaeth wedi'i dargedu wrth yrru newid cadarnhaol. Edrychwn ymlaen at barhau â'r momentwm hwn ac adeiladu ar y cyflawniadau hyn yn y dyfodol!

Astudiaethau Achos: Sut mae cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi cael effaith ar draws y rhanbarth

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos effaith go iawn cymorth y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar fusnesau a chymunedau lleol. O ffasiwn i fwyd, mae'r straeon hyn yn adlewyrchu'r amrywiaeth o fentrau a wnaed yn bosibl gan y buddsoddiad hwn.

Arloesi a Menter

Mae'r fideos canlynol yn dangos dwy enghraifft bwerus o Geredigion o sut mae cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi grymuso lles a menter.



1 - Caffi Creadigol



2 - Antur Cymru

Mae'r celfyddydau'n ffynnu gyda chefnogaeth y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Cafodd cwmni opera a theatr teithiol, sydd wedi'i leoli ym Mhowys, ei achub rhag gwneud ei lenalwad olaf gan grant pontio a gwydnwch y celfyddydau oddi wrth y cyngor sir.

Roedd Opera Canolbarth Cymru yn un o 10 sefydliad a fanteisiodd ar ddyfarniadau a weinyddwyd gan Wasanaeth Celfyddydau a Diwylliant Cyngor Sir Powys yn 2024, ar ôl sicrhau cefnogaeth gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

Stori lawn: <https://cy.powys.gov.uk/article/17915/Cronfa-gelfyddydau-yn-atal-cwmni-opera-a-theatr-rhag-mynd-ir-wal>



ani-bendod

Mae cefnogaeth i'r celfyddydau wedi bod yn hanfodol wrth warchod diwylliant lleol a chynnal sefydliadau creadigol yn ystod cyfnodau heriol. Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos sut y gwnaeth y Gronfa Ffyniant Gyffredin helpu i gynnal cwmni cynhyrchu amlwg yng Nghanolbarth Cymru.

O weithdy fferm fechan ym Mronant i frand rhyngwladol, mae ani-bendod wedi brodio diwylliant Cymru ar filoedd o grysau-t, anrhegion a chalonnau. Gyda chefnogaeth gan ARFOR a Cynnal y Cardi drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae Anwen James wedi adeiladu busnes gwledig ffyniannus sy'n cyfuno creadigrwydd, cynaliadwyedd a chymuned.

"Mae'r gefnogaeth hon wedi ein galluogi ni fel teulu i wneud bywoliaeth yn ein cymuned, gan sicrhau dwy swydd amser llawn, yn y gobaith o ehangu ar hyn yn y dyfodol. Gallwn ffermio law yn llaw â rhedeg busnes yng nghefn gwlad." – Anwen James, Sylfaenydd

Stori lawn: www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/newyddion/2025/cymorth-arfor-yn-dwyn-ffrwyth-yng-ngheredigion/



O wreiddiau lleol i gydnabyddiaeth genedlaethol – sut helpodd cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin i lansio busnes ym Mhowys ar Dragons' Den

One ambitious Powys-based business has risen through the ranks thanks to targeted support from Powys County Council and the UK Shared Prosperity Fund (SPF). The funding played a crucial role in helping the enterprise scale up, strengthen its business plan, and prepare for wider growth — proving how local investment can unlock national opportunities.

This backing helped the business reach an impressive milestone: attracting the attention of investors on BBC's Dragons' Den, where it pitched for national support. The achievement is a testament to the power of local and SPF support in nurturing homegrown talent and giving businesses the tools to step confidently onto bigger stages.

Stori lawn: <https://cy.powys.gov.uk/article/17978/Cefnogaeth-gan-y-cyngor-a-gan-y-Dreigiau>



Prif enillydd Gwobrau Caru Ceredigion 2024



Mae cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) wedi chwarae rhan allweddol wrth gefnogi twf Cigydd Sion Jones – busnes lleol sydd wedi'i wreiddio mewn ansawdd, cynaliadwyedd a chymuned. O dan arweiniad y cigydd profiadol Sion Jones, mae'r cyllid wedi galluogi'r busnes i ehangu ei gynnig o gynnyrch lleol, cryfhau cysylltiadau â ffermwyr cyfagos, ac ymrwymo'n fwy i'r gymuned – gan gynnwys ymweliadau addysgol ag ysgolion i hyrwyddo dewisiadau bwyd cynaliadwy.

Cafodd ymroddiad Sion ei gydnabod mewn seremoni wobrwyo'n ddiweddar, lle derbyniodd Wobr Caru Ceredigion a'i enwi'n enillydd cyffredinol ar draws pob categori. Mae ei stori lwyddiant yn dangos sut gall y Gronfa Ffyniant Gyffredin rymuso busnesau bach i ffynnu a chael effaith barhaol ar eu cymunedau.

Stori lawn: <https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/newyddion/2025/sesiwn-holi-ac-ateb-gyda-phrif-enillydd-gwobrau-caru-ceredigion-2024/>

O 'egg chasers' i fusnes cynhyrchu wyau

Ymhlith y rhai a dderbyniodd grantiau twf busnes gan Gyngor Sir Powys y llynedd - a oedd yn gyfanswm o ychydig llai na £1 miliwn - oedd y chwaraewr rygbi rhyngwladol o Gymru, Dan Lydiate.

Mae Dan, sydd ar hyn o bryd yn chwarae rygbi gyda Dreigiau Casnewydd ac sydd â 75 cap dros Gymru a Llewod Prydain ac Iwerddon, wedi sefydlu ei gwmni cynhyrchu wyau ei hun ar fferm ei deulu yn Abaty Cwm Hir.

Cafodd Cwmni Wyau No6, a enwyd ar ôl rhif y crys y mae fel arfer yn ei wisgo ar y cae rygbi fel blaenasgellwr, ychydig dros £4,000 gan y cyngor sir tuag at feddalwedd newydd i reoli fferm, yn 2024.

Stori lawn: <https://cy.powys.gov.uk/article/18498/O-egg-chasers-i-fusnes-cynhyrchu-wyau>



5 - Dan Lydiate, No6 Egg

Grant Cynnal y Cardi yn cefnogi busnes ffyniannus i ehangu ym Mhenuwch

Mae Welshhomestead Smokery yn dŷ mwg sydd wedi ennill sawl gwobr ar dyddyn ym Maesffynnon, Penuwch ac mae wedi tyfu'n sylweddol ers ei lansio yn 2019.

Agorodd eu gweithdy a'r gegin newydd gyda cefnogaeth gan Y Gronfa Ffyniant Gyffredin drwy Gronfa Cynnal y Cardi sy'n cael ei gweinyddu a'i chefnogi gan Gyngor Sir Ceredigion.

Stori lawn: <https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/newyddion/2025/grant-cynnal-y-cardi-yn-cefnogi-busnes-ffyniannus-i-ehangu-ym-mhenuwch/>



Dewch i gwrdd â'r 71 cwmni a dderbyniodd help i dyfu gyda grantiau gwerth ychydig llai na £1m




Cafodd 71 o gwmnïau ym Mhowys gymorth i ehangu, neu sicrhau eu dyfodol, y llynedd gyda grantiau twf gan y cyngor sir, sef cyfanswm o £994,000.

Rhodddwyd yr arian tuag at brosiectau a gostiodd gyfanswm o dros £10 miliwn, gyda'r busnesau eu hunain yn buddsoddi £9.4 miliwn.


Mae'r 71 cwmni yn ymwneud â phopeth o ddodrefn dylunydd i roboteg ffatri ac wedi derbyn rhwng £940 a £25,000 yr un ar ôl i'r cyngor sicrhau £1.2 miliwn ar gyfer y cynllun, o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

Am fanylion am y busnesau a'r sectorau y maent yn rhan ohonynt, gweler y stori lawn:

<https://cy.powys.gov.uk/article/18496/Dewch-i-gwrdd-ar-71-cwmni-a-dderbyniodd-help-i-dyfu-gyda-grantiau-gwerth-ychydig-llai-na-1m>



Digwyddiadau sydd ar ddod y gwanwyn a'r haf hwn



Efallai bod y Gronfa Ffyniant yn dirwyn i ben, ond mae ein rhanbarth yn parhau i fyrlumu â digwyddiadau a chyfleoedd sydd wedi elwa o gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Dyma beth sydd ar y gweill y gwanwyn a'r haf hwn:

Caru'ch Cymuned, Categori NEWYDD ar gyfer Gwobrau Caru Ceredigion 2025.

Bydd ceisiadau ar agor cyn bo hir ar gyfer categori newydd yng Ngwobrau Caru Ceredigion 2025. Bydd gwobr **Caru'ch Cymuned** yn cydnabod ac yn dathlu gwaith cymunedau trefi a phentref ledled Ceredigion wrth gadw eu cymuned yn daclus, trefnu digwyddiadau a darparu gwasanaethau i bobl yr ardal.

Mae cymunedau mawr a bach yn cael eu hannog i gymryd rhan. Nod ymgyrch **Caru'ch Cymuned** yw meithrin a dathlu ymdeimlad o falchder mewn cymunedau ledled y sir, tra'n annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau a mentrau sy'n gwella'r amgylchedd, cefnogi busnesau lleol, a chryfhau cydlyniant a gwytnwch cymunedol.

Mae tri chategori yn y gystadleuaeth ar gyfer Gwobrau 2025/2026; Pentrefi bach, Pentrefi a Threfi. Bydd yr ymgyrch yn agor yn fuan, yn y cyfamser mae croeso i chi gysylltu gyda'r tim drwy e-bost at: ce.cynnalycardi@ceredigion.gov.uk

Galw am geisiadau ar gyfer cronfa digwyddiadau Cynnal y Cardi



Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU



Cronfa Digwyddiadau Cynnal y Cardi AR AGOR	Cynnal y Cardi Events Fund NOW OPEN
Mae Cronfa Digwyddiadau Cynnal y Cardi yn agor am yr ail flwyddyn yn olynol ar gyfer busnesau a chymunedau yng Ngheredigion. Bydd dau becyn cyllid ar gael wedi ei ariannu drwy CFFGDU:	<i>The Cynnal y Cardi Events fund is open for the second year running for businesses and communities in Ceredigion. There will be two funding packages on offer funded through UKSPF:</i>
<ul style="list-style-type: none">• Grant digwyddiadau bach Isafswm £2,000 – uchafswm o £10,000• Grant digwyddiadau mawr (Lleiafswm o £30,000)	<ul style="list-style-type: none">• Small events grant (Minimum £2,000 – maximum £10,000)• Large events grant (Minimum of £30,000)
Bydd pob grant yn selliedig ar 70% o'r costau cymwys. Rhaid i arian cyfatebol o leiafswm o 30% fod yn arian parod (yn hytrach na "mewn nwyddau")	<i>Each grant award will be based on 70% of eligible costs. Match funding of 30% must be in cash (rather than "in kind")</i>
Rhaid cwblhau pob gweithgaredd, a hawlio cyllid erbyn 31ain o Ionawr, 2026.	<i>All activity and project expenditure must be completed by the 31st of January 2026.</i>
Am fwy o wybodaeth am y gronfa sydd ar gael, ewch i: https://www.ceredigion.gov.uk/business/funding-and-grants/cynnal-y-cardi-events-programme-fund/	<i>For more information about the available grant go to: https://www.ceredigion.gov.uk/business/funding-and-grants/cynnal-y-cardi-events-programme-fund/</i>



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Mae cronfa digwyddiadau Cynnal y Cardi yn agor am yr ail flwyddyn yn olynol ar gyfer busnesau a chymunedau yng Ngheredigion a ariennir drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (CFFGDU).

Mae'r cronfa nawr ar agor ar gyfer ceisiadau ac yn cau ar ddydd Iau 01 Mai, 2025.

Mae twristiaeth yn sector economaidd sydd o bwysigrwydd hanfodol i Geredigion, sef y trydydd cyflogwr mwyaf yn y sir ac rydym yn awyddus i adeiladu ar y sector hwn a denu ymwelwyr newydd i'r ardal.

Cewch fwy o wybodaeth am sut y gallwch gyflwyno cais drwy fynd at:

<https://www.ceredigion.gov.uk/busnes/cyllid-a-grantiau/cronfa-rhaglen-digwyddiadau-cynnal-y-cardi/>

Edrych ymlaen: Y dirwedd ôl-2025

Er ein bod ni'n dathlu cyflawniadau, mae hefyd yn bwysig edrych i'r dyfodol. Gyda llai o gyllid ar gael y tu hwnt i fis Mawrth 2025, bydd angen i fodolau cyflenwi esblygu a thargeddu cefnogaeth yn fwy strategol.

Wrth i raglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin ddod i ben ym mis Mawrth, mae'n gadael gwaddol balch. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y dirwedd sy'n newid. Bydd cyllid yn y dyfodol yn fwy cyfyngedig. Mae Tyfu Canolbarth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau parhad lle bo hynny'n bosibl — ond bydd y cyflawni wedi'u targedu'n fwy.

"Rydym yn hynod falch o'r hyn sydd wedi'i gyflawni - ond mae angen i ni hefyd fod yn realistig ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflawni gyda chyllidebau llai." – Tîm Tyfu Canolbarth Cymru

Gwylwch y gofod hwn!

Newyddion eraill

Cronfa Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru – Diweddariad i'r Digwyddiad Lansio



Cronfa Buddsoddi Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru



Rydym ni wedi cael ein syfrdanu gan yr ymateb gwych i'n digwyddiad lansio. Diolch o galon i bawb a gofrestrodd! Oherwydd y nifer uchel o ddiddordeb, mae'r digwyddiad bellach yn llawn felly ni allwn gymryd ddim rhagor o bobl.

Ond peidiwch â phoeni – os ydych chi wedi colli allan, rydyn ni yma i helpu. Byddwn yn cynnal sesiwn gweminar ddydd Iau, 15 Mai, rhwng 2:30 a 4:00pm, lle byddwn yn rhannu'r gwybodaeth allweddol yma eto.

I gofrestru ar gyfer y gweminar, anfonwch e-bost atom at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.gov.uk – byddem wrth ein bodd eich cael chi'n ymuno â ni ar-lein.

Cyflogi Gadawyr Carchar: Datgloi Potensial

Yn diweddar, roedd y digwyddiad 'Cyflogi Gadawyr Carchar: Datgloi Potensial' yn llawn ysbrydoliaeth ac egni.

Roedd yn ymwneud â chwalu stereoteipiau ac annog cyflogwyr i recriwtio'r rhai sy'n gadael carchar.

Roedd yn bleser i Bartneriaeth Sgiliau rhanbarthol Canolbarth Cymru gweithio ochr yn ochr â CEM Berwyn, DWP a Cymru'n Gweithio i wneud y digwyddiad hwn yn bosibl.

Os na allwch fynychu'r digwyddiad ond yr hoffech gael gwybod mwy, anfonwch e-bost at dîm y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol: midwalesrsp@powys.gov.uk



Optimeiddio gridiau gwledig drwy gymunedau amaethyddol

Gan barhau i rannu gwybodaeth am y pum ymgeisydd llwyddiannus a dderbyniodd gyllid i gynnal astudiaethau dichonoldeb ar ddatgarboneiddio amaethyddiaeth, gwylwch y clipiau hyn gan **Y Ganolfan Cydraddoldeb Ynni**, **Asiantaeth Ynni Hafren Gwy**, a **Challoch Energy**.

Y Ganolfan Cydraddoldeb Ynni - HARVEST (Holistic Agriculture and Rural Virtual Energy System Transition): Gan ddefnyddio model datganoledig sy'n eiddo i'r gymuned, dyma orsaf bŵer rithwir a fyddai'n cysylltu cartrefi, busnesau a systemau ynni adnewyddadwy ar ffermydd—fel paneli solar a batris. Wedi'i leoli yn Llanidloes

Asiantaeth Ynni Hafren Gwy - Helpu busnesau i leihau'r galw am ynni: Gan ganolbwyntio ar weithredu Systemau Ynni Lleol Clyfar mewn parciau diwydiannol a busnes, nod y prosiect

hwn yw lleihau'r galw am ynni ar y grid drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol a storio ynni mewn batris. Wedi'i leoli yn Llandysilio ger Y Trallwng.

Challoch Energy - Ynni gwledig i bentrefi yng Nghanolbarth Cymru: Gwerthuso'r potensial ar gyfer datblygu system ynni integredig leol yn y gymuned a fydd yn datgarboneiddio'r gymuned ac yn cynnig manteision ariannol drwy fwy o ynni fforddiadwy.

I gael rhagor o fanylion am Gronfa Her WSRID a'r prosiectau llwyddiannus, ewch i <https://www.tyfuanolbarth.cymru/WSRID-CY>.

Bydd rhagor o wybodaeth am y cam nesaf yn GronfaHer Ymchwil ac Arloesi Systemau Cyfan ar gyfer Datgarboneiddio (WSRID) Llywodraeth Cymru yn ymddangos yng nghylchlythyr y mis nesaf.



Mae'r prosiect HARVEST yn darparu gorsaf bŵer rithwir a chymdeithasol a fydd



megis pymplau gwres, paneli solar, cerbydau trydan, a thrydaneiddio'r diwydiant amaeth.



Manteision y math hwn o brosiect i ganolbarth Cymru yw ei fod yn eich galluogi i adeiladu prosiectau ynni adnewyddadwy newydd

Rydyn ni'n symud ymlaen gyda chysylltedd digidol yng Nghanolbarth Cymru!

Yn nghyfarfod Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn diweddar, cafodd tri phrosiect cyffrous eu cymeradwyo i symud ymlaen i wella dyfodol digidol ein rhanbarth:

◆ Prosiect Cynnwys a Chapasiti Symudol – yn mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth symudol ar draws ardaloedd gwledig Canolbarth Cymru i sicrhau gwasanaeth mwy dibynadwy.

◆ Prosiect cysylltiad ffeibr i'r adeilad (FTTP) ar gyfer Parciau Busnes – yn dod â band eang gigabit ffibr-llawn yn uniongyrchol i brif barciau busnes i hybu cynhyrchiant ac arloesedd.

◆ Prosiect Ysgogi LoRaWAN – yn cyflwyno technoleg rhwydwaith pŵer isel, pellter hir i gefnogi synwryddion craff ym meysydd megis amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu a mwy.

Mae'r prosiectau hyn yn rhan o Raglen Ddigidol y Bargaen Twf – yn darparu seilwaith sy'n cysylltu cymunedau ac yn cefnogi twf economaidd. Maen nhw wedi derbyn cymeradwyaeth amlinellol – sy'n golygu y bydd gwaith datblygu manwl pellach dros yr haf, gyda'r gwaith cyflwyno'n debygol o ddechrau'r hydref eleni.



Edrych ymlaen

A oes angen i chi ddal i fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Dyma nodyn i'ch atgoffa o ble y gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan [Cyngor Sir Powys](#).
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein [gwefan](#).

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

<https://twitter.com/growingmidwales>

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

<https://www.youtube.com/@TCC-GMW>

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

